*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **22 Hydref 2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535258)** |
| Pwnc | **Gosod y Gyllideb ar gyfer 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r broses, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) ar gyfer 2019/20.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r ATA osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018. Cychwynnwyd ar y gwaith rhagbaratoi sy'n angenrheidiol er mwyn pennu'r gyllideb sylfaen, ac mae'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol, a'r risgiau. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu harchwilio mewn gweithdy cynllunio'r gyllideb ar gyfer yr aelodau ar 16 Tachwedd er mwyn gallu llunio'r gyllideb ddrafft.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r aelodau:
- (i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20;
- (ii) nodi gweithdy cynllunio'r gyllideb i'r aelodau ar 16 Tachwedd; a
- (iii) nodi'r terfyn amser i'r ATA gymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20.

**CEFNDIR**

4 Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Fel arfer, bydd cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd cyn gosod y gyllideb. Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2019/20 yn dangos bod angen £35.4m ar gyfer cyllideb net yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd o £1.3m yn y gwariant net flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ystod 2018/19, mae'r ATA yn defnyddio dros £0.6m o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r costau rhedeg, sef strategaeth nad yw'n gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Felly, bydd y cynnydd posibl yng nghyfraniadau'r cynghorau lleol cyfansoddol yn £1.9m yn 2019/20.

5 Cyfarfu'r Gweithgor Cynllunio bum gwaith rhwng Ionawr ac Ebrill 2018 i ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli'r cynnydd. Argymhellodd y gweithgor i'r Awdurdod y dylid llunio'r gyllideb ar sail y lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau. Fe wnaeth yr ATA gymeradwyo'r argymhelliad hwn ar 18 Mehefin 2018. Mae'r ATA wrthi'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllideb refeniw 2019/20, sy'n cynnwys y cynnydd a gynigir yng nghyfraniadau'r cynghorau lleol cyfansoddol. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 2 Tachwedd 2018, a bydd gweithdy i'r aelodau ar gynllunio'r gyllideb yn cael ei gynnal ar 16 Tachwedd 2018. Bydd y gweithdy'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chynigion y gyllideb ar gyfer 2019/20. Mae'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau wedi'i hamlinellu yn Atodiad 1. Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2019/20 yn cael ei hystyried i'w chymeradwyo gan yr ATA yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018.

**GWYBODAETH**

6 Yn Atodiad 1, mae amlinelliad o'r rhagdybiaethau cynllunio'r gyllideb. Y pwysau chwyddiannol yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o ran costau gweithwyr. Mae'r asesiad cynllunio cyfredol yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog, er nodir nad yw'r negodiadau o fewn Cyd-Gyngor yr NJC am ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2018 ac ymlaen wedi dod i ben. Mae risg pellach i gostau gweithwyr yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân oherwydd disgwylir iddynt gynyddu yn dilyn ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn ddiweddar. Nid yw manylion y cynnydd wedi'u cyhoeddi eto, nid yw'r rhagolwg cyfredol ar gyfer y gyllideb yn cynnwys cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr eto. Bydd yr effaith bosibl, yn deillio o unrhyw newidiadau, yn cael ei hasesu a'i thrafod yn y gweithdy.

7 Nid yw cynnydd chwyddiannol wedi'i gymhwyso i gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau. Mae gwaith yn mynd ymlaen i ganfod risgiau penodol ymhob un o benawdau'r gyllideb ac i ystyried opsiynau ar gyfer rheoli'r pwysau nad yw'n gysylltiedig â chyflogau.

8 Mae'r costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a ffioedd refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Mae cynnydd yng nghyfraddau sylfaen Banc Lloegr wedi'i ffactorio i mewn i'r gyllideb. Cynhelir adolygiad o'r rhaglen gyfalaf i ganfod opsiynau ar gyfer gostyngiadau pellach.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Yn ôl yr amcangyfrifon cyfredol, bydd £1.3m o gynnydd yn y gwariant net yn 2019/20. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb fantoledig yn seiliedig at ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r risgiau allweddol i gyllideb 2019/20 yn cynnwys dyfarniadau cyflog sy'n uwch na 2%, cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr i bensiynau diffoddwyr tân, a chynnydd uwch na'r disgwyl yng nghyfraddau llog Banc Lloegr. |

**Atodiad 1**

**Crynodeb o ragdybiaethau cynllunio a risgiau**

| **Pennawd** | **Canran o wariant net** | **Y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb** | **Risgiau** |
|---|---|---|---|
| Cysylltiedig â'r gweithwyr | 71% | • Ni ragwelir newidiadau arwyddocaol i'r strwythurau staffio<br>• Roedd y rhagdybiaethau cynllunio gwreiddiol yn cynnwys cynnydd o 1% yng nghost byw. Y rhagdybiaeth weithredol gyfredol yw y bydd y chwyddiant cyflogau yn 2%<br>• Ni ragwelir cynnydd yn y cyfraniadau yswiriant gwladol<br>• Roedd y gwaith o gynllunio'r gyllideb wreiddiol yn rhagdybio na fyddai'r cyfraddau cyfraniadau pensiwn yn newid yn 2019/20 | • Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi darparu'r canlyniad o'i brisiad o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn 2016. Mae hyn wedi tynnu sylw at y posibilrwydd y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu'n sylweddol oherwydd newidiadau yng nghyfraddau'r disgowntiau a ddefnyddir. Y rhagdybiaeth gynllunio gyfredol yw ariannu hyn ar gyfer 2019/20 ond bod hyn yn parhau'n risg allweddol<br>• Nid yw'r negodiadau rhwng Cyd-Gyngor yr NJC ac Undeb yr FBU wedi dod i ben |
| Nid Cyflogau | 20% | • Nid yw cynnydd chwyddiannol wedi cael ei gymhwyso, a rhaid i reolwyr cyllidebau ganfod arbedion i liniaru rhag pwysau costau cyffredinol. | • Mae pwysau costau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys TGCh, y Fflyd ac Ystadau, ac mae adolygiadau effeithlonrwydd yn mynd ymlaen ymhob rhan o'r Gwasanaeth i ganfod cyfleoedd i reoli gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau |
| Cyllido Cyfalaf | 10% | • Roedd yr asesiad cynllunio gwreiddiol yn cynnwys £4.9m o raglen gyfalaf ar gyfer 2018/19. Mae'r opsiynau ar gyfer lleihau'r rhaglen gyfalaf wrthi'n cael eu datblygu<br>• Mae cynnydd yn y cyfraddau llog wedi'i ffactorio i mewn i'r gwaith o gynllunio'r gyllideb | • Nid yw'r cynnydd posibl yn y cyfraddau llog yn hysbys, a gallai fod yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | -1% | • Adolygwyd cyllidebau incwm, a sicrhawyd eu bod yn gyson â'r blynyddoedd diweddar. | • Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol |